

# Adroddiad Terfynol

## Ymchwiliad Craffu

### Cynllunio a'r Iaith Gymraeg

Dymunwn ddiolch i'r holl gyfranogwyr am eu cydweithrediad gyda'r gwaith.

#### A PRIF ARGYMHELLION GERBRON HEDDIW (4 Gorffennaf 2019)

Mae Aelodau'r Gweithgor yn ystyried eu bod wedi cyflawni'r hyn sy'n ymarferol, ac yn argymhell:

- Bod gan y cynghorau ddisgresiwn o ran gofyn am 'Ddatganiad Iaith Gymraeg' neu 'Asesiad Effaith Iaith Gymraeg' wrth ymdrin ag unrhyw geisiadau cynllunio, boed ar hap neu beidio, lle bo'r Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol, yn unol ag adran 31(2) Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.**
- Bod yr *Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd* yn cyflwyno'r canlynol i gyfarfod y *Pwyllgor Craffu Cymunedau* cyn gynted â phosibl:**
  - Adroddiad Monitro Blwyddyn gyntaf y Cynllun Datblygu newydd**
  - Dadansoddiad o gyfraniad y Canllaw Cynllunio cyfredol i effaith datblygiadau ar hyfywedd yr iaith Gymraeg yng Ngwynedd ers 2009.**
- Nodi trothwyon ehangach na datblygiadau ar hap ar gyfer cynnal *Datganiadau Iaith ac Asesiadau Iaith* yn y polisiau perthnasol.**
- Gofyn i garedigion yr iaith am eu cefnogaeth i gyflawni'r gwaith.**
- Dod â'r ymchwiliad craffu i ben.**

## B Argymhellion Cychwynnol ac Ymatebion

### 6. Gofyn i Aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd am ddiweddariad i'w hymatebion isod dyddiedig Tachwedd 2018.

	Argymhelliad Gweithgor Ymchwiliad Craffu Gwynedd – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Ebrill 2018)	Ymateb y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Tachwedd 2018)
1a	Bod angen datganiad clir yn y Canllaw bod angen i'r datblygwr fynd i <b>ymgyngoriad cyhoeddus</b> ar bob datblygiad 10 neu fwy o dai mewn ardal drefol a 5 neu fwy o dai mewn ardal bentrefol/wledig.	<p><b>Byddai'n anghyfreithlon i gynnwys y datganiad hwn yn y Canllaw.</b></p> <p>Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 sy'n penderfynu pryd mae angen i ymgeisydd gynnal ymgyngoriad cyhoeddus am ddatblygiad arfaethedig. O dan y Ddeddf, bydd angen i ddatblygwyr sy'n rhoi prosiectau'n cynnwys 'datblygiad mawr' gerbron ymgyngori'n statudol cyn gwneud cais. Rhoddir y diffiniad o ddatblygiad mawr yn Erthygl 2 o Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (DMPWO). Yn fyr, datblygiad mawr yw:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygiadau o 10 neu fwy o dai lle mae arwynebedd y safle'n 0.5 ha neu fwy (os nad yw nifer y tai'n hysbys);</li> <li>• Darparu adeilad(au) lle mae arwynebedd y llawr yn fwy na 1,000 metr sgwâr;</li> <li>• Tyllu a gweithio mwynau neu ddefnyddio tir i storio dyddodion tyllu mwynau;</li> <li>• Datblygiad gwastraff; a</li> <li>• Datblygiad ar safle o 1 ha neu fwy.</li> </ul> <p>Er hynny, cytunir bod ymgysylltu ac ymgyngori â'r cymunedau a budd-ddeiliaid amrywiol eraill yn bwysig wrth ystyried datblygiad arfaethedig yn y cyfnod cyn cyflwyno cais cynllunio ac ar ôl cyflwyno'r cais cynllunio. Mae Diagram 5, Atodiad 7 ac Atodiad 8 yn nodi disgwyliadau'r Awdurdodau am ymgysylltu ac ymgyngori yn ystod y cam cyn cyflwyno cais cynllunio.</p> <p>Gweler 1b hefyd.</p>
1b	Bod angen nodi'n glir yn y Canllaw bod angen i'r Datblygwr gyflwyno <b>Datganiad Iaith Gymraeg ac Aseiad Effaith Iaith</b>	<p><b>Byddai'n anghyfreithlon i gynnwys y datganiad hwn yn y Canllaw.</b> Polisi PS 1 y Cynllun sy'n pennu pryd fydd angen cyflwyno Datganiad Iaith Gymraeg a phryd</p>

	<p><b>Argymhelliad Gweithgor Ymchwiliad Craffu Gwynedd – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Ebrill 2018)</b></p>	<p><b>Ymateb y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Tachwedd 2018)</b></p>
	<p><b>Gymraeg</b> ar gyfer pob datblygiad sy'n mynd i ymgynghoriad cyhoeddus.</p>	<p>fydd angen cyflwyno adroddiad am Asesiad Effaith Iaith Gymraeg gyda cheisiadau cynllunio.</p> <p>Pan mae angen ymgymryd ag asesiad o effaith datblygiad ar yr iaith Gymraeg a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus statudol cyn cyflwyno cais cynllunio (yn unol â gofynion y Ddeddf), mae'r Canllaw Cynllunio Atodol yn nodi'n glir disgwylir i'r Datganiad Iaith Gymraeg ac Asesiad Effaith Iaith Gymraeg gael ei gyhoeddi fel rhan o'r pecyn dogfennau – Diagram 5, Atodiad 7 ac Atodiad 8.</p> <p>Yn ychwanegol, penderfynwyd i <b>awdurdodi Uwch Swyddogion perthnasol ar ran Gwasanaethau Cynllunio'r ddau Awdurdod i ysgrifennu i Lywodraeth Cymru i holi am hawliau i newid polisi mewn cynllun datblygu lleol a hawliau i newid y trothwy i osod gofyniad i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus cyn cyflwyno cais cynllunio ar gyfer 5 tŷ mewn pentrefi a chefn gwlad yn lle 10 tŷ.</b></p> <p>Derbyniwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru a oedd yn cadarnhau safbwynt y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.</p>
2	<p>Bod Aelodau'r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes <b>Cynllunio Ieithyddol</b> wrth baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd a chyn ymgynghori ar y Canllaw drafft newydd.</p>	<p>Penderfynwyd i <b>Awdurdodi Uwch Swyddogion perthnasol ar ran Gwasanaethau Cynllunio'r ddau Awdurdod i gomisiynu arbenigwyr allanol cymwys i ymgymryd â gwerthusiad beirniadol o'r Canllaw Cynllunio Atodol: cynnal a chreu cymunedau nodedig a chynaliadwy, ac yn benodol Adran 2 o'r Canllaw hwnnw.</b></p> <p><b>Penodwyd Cwmni Iaith a chwmni Burum i weithio mewn partneriaeth i ymgymryd â gwerthusiad beirniadol o'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft ymgynghorol cyntaf.</b> Derbyniwyd argymhellion y cwmnïau ac mae'r Canllaw Cynllunio Atodol drafft ymgynghorol, sy'n ymgorffori newidiadau a gafodd eu hargymell gan y cwmnïau, wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.</p>
3	<p>Bod Aelodau'r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes <b>Ymchwil a Dadansoddeg</b> wrth baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol</p>	<p><b>Nid oedd angen arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes ymchwil a dadansoddeg i gwblhau'r gwaith o baratoi'r Canllaw cyn ymgynghoriad cyhoeddus amdano.</b></p>

	<b>Argymhelliad Gweithgor Ymchwiliad Craffu Gwynedd – Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (Ebrill 2018)</b>	<b>Ymateb y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Tachwedd 2018)</b>
	newydd a chyn ymgynghori ar y Canllaw drafft newydd.	
4	Bod Aelodau'r Panel yn derbyn cyngor ac arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes <b>Ymgysylltu ac Ymgynghori</b> wrth baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol newydd a chyn ymgynghori ar y Canllaw drafft newydd.	<b>Nid oedd angen arweiniad gan arbenigwyr annibynnol ym maes ymchwil a dadansoddeg i gwblhau'r gwaith o baratoi'r Canllaw cyn ymgynghoriad cyhoeddus amdano.</b>
5	Bod Aelodau'r Panel yn gofyn am ymestyn yr <b>Amserlen</b> os oes angen er mwyn cyflawni gwaith o'r safon uchaf posibl.	<b>Mae'r amserlen i baratoi'r Canllaw Cynllunio Atodol wedi cael ei ymestyn er mwyn ymgymryd â gwerthusiad beirniadol a pharatoi adroddiad am yr ymgynghoriad cyhoeddus i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn ystod 2019.</b>

## **C**     **CEFNDIR**

7. Yng nghyfarfod arbennig y Cyngor llawn ar 28 Gorffennaf 2017, fe fabwysiadwyd *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026*.
8. Cynhaliwyd Cyfarfod Briffio gan yr Aelod Cabinet Amgylchedd ar 22 Medi 2017 a gofynnodd i'r Aelodau am gefnogaeth a syniadau gyda'r gwaith o ddatblygu'r *Canllaw Cynllunio Atodol*.
9. Sefydlwyd Ymchwiliad Craffu Cynllunio a'r Iaith Gymraeg yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 7 Rhagfyr 2017.
10. Dyma oedd nod yr Ymchwiliad:

### Rhan 1 (hwn yn benodol i'r CCA drafft)

- Cymal A    Sicrhau bod proses ymgynghori am y Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) drafft yn un gynhwysol;
- Cymal B    Craffu fframwaith drafft ar gyfer paratoi Datganiad Iaith Gymraeg a fframwaith drafft ar gyfer paratoi Asesiad Effaith Iaith Gymraeg;
- Cymal C    Craffu sut y bwriedir gweithredu ar y CCA yng nghyd-destun gofynion y NCT 20 newydd; (<https://gov.wales/topics/planning/policy/tans/planning-and-the-welsh-language/?lang=cy> )

Cymal CH Derbyn trosolwg o'r sylwadau a dderbynnir gan y cyhoedd adeg ymgynghori cyhoeddus am y CCA drafft er mwyn cyflwyno barn i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd cyn i'r CCA terfynol gael ei fabwysiadu.

Rhan 2 (hwn yn benodol i'r cyd-destun polisi/cyngor cenedlaethol)

Cymal D Casglu tystiolaeth i lunio syniadau ac awgrymiadau ar gyfer ystyriaeth Aelod Cabinet Amgylchedd Cyngor Gwynedd i ddylanwadu ar bolisi a chanllawiau cynllunio cenedlaethol yn y dyfodol.

**CH CANFYDDIADAU**

11. Mae angen adolygu Polisiâu perthnasol y *Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd* o safbwynt perthnasedd i hyfywedd y Gymraeg.
12. Nid oes tystiolaeth bod y Canllaw cyfredol na'r Canllaw drafft newydd yn medru cyfrannu'n ystyriol at gyflawni un o gonglfeini'r Cynllun o gynnal a chreu cymunedau gyda 70% o siaradwyr Cymraeg.
13. Mae diffyg adnoddau gan y Gwasanaeth Cynllunio i gyflawni gwaith yn amserol.

**D CANLLAW CYNLLUNIO DRAFFT NEWYDD (Gweler ATODIAD 1)**

14. Yn dilyn cais gan y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau am sylwadau ynglŷn â'r Canllaw Cynllunio drafft newydd, gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor Craffu i Aelodau'r Gweithgor i anfon eu sylwadau ar eu rhan.
15. Wedi ystyried y Canllaw drafft, sylwadau'r cyhoedd ac ymatebion y swyddogion, siomedig ar y cyfan fu'r ymarferiad.
16. Mae Aelodau'r Gweithgor yn ystyried mai'r ffordd fwyaf effeithiol o gyfarch y mater yma ydi i nodi'r sylwadau a wnaed gan y cyhoedd yn yr Ymgysylltiad a gynhaliwyd gan yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd ym Mehefin 2016.
17. Awgrymir y byddai'n fuddiol i Aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd roi ystyriaeth fanwl a gofalus i'r pwyntiau a nodir gan fodloni eu hunain bod y Canllaw drafft newydd yn cyfarch y pwyntiau a godwyd gan y cyhoedd.
18. Awgrymir mai'r ffordd fwyaf effeithiol i wneud hyn fyddai i Aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd i ystyried y sylwadau coch yn yr atodiad a diweddarau eu sylwadau gwyrdd er mwyn cyfarch y materion hynny.

## **DD METHODOLEG a GWAITH YR YMCHWILIAD**

19. Cynhaliwyd 13 cyfarfod o'r Gweithgor rhwng 9 Ionawr a 31 Hydref 2018.
20. Nododd y Gwasanaeth Cynllunio eu bod wedi cynnal ymgysylltiad ar y Canllaw Cynllunio Atodol cyfredol ym mis Mehefin 2016.
21. Cafwyd rhestr o tua 100 o ran-ddeiliaid gan y Gwasanaeth a oedd wedi cael cais i gymryd rhan yn yr ymgysylltiad.
22. Gwahoddwyd ar hap rhai o'r sefydliadau a oedd ar y rhestr i gyfarfod â'r Gweithgor er mwyn eu holi am eu barn am y Canllaw cyfredol ac i nodi unrhyw awgrymiadau am sut y gellir ei wella.

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth ar lafar i'r Ymchwiliad Craffu Cynllunio a'r Iaith Gymraeg ar y dyddiadau a nodir isod:

Dyddiad	Enw a sefydliad
22 Ionawr 2018	Dyfan Sion, Cynrychiolydd Comisiynydd y Gymraeg Ieuan Wyn, Cynrychiolydd Cylch yr Iaith Seimon Brooks, Ymatebydd Unigol
01 Chwefror 2018	Gareth Jones, Uwch Reolwr Cynllunio ac Amgylchedd Nia Haf Davies, Rheolwr Cynllunio (Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn)
06 Chwefror 2018	Cynog Prys, Darlithydd Cymdeithaseg – Arbenigo mewn Cynllunio Ieithyddol Prifysgol Bangor Rhian Hodges, Darlithydd Cymdeithaseg a Pholisi Cymdeithasol Prifysgol Bangor Huw Prys, Cwmni Hanfod
12 Chwefror 2018	Owain Wyn, Cwmni Burum
22 Chwefror 2018	Rhys Jones, Arweinydd Tîm Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd

27 Chwefror 2018	Debbie Anne Williams Jones, (cyn Rheolwr Hunaniaeth) Gwenllïan Williams, Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd (Gweithle)
14 Mai 2018	Rhun ap Gareth, Uwch Gyfreithiwr Cyngor Gwynedd
29 Mehefin 2018	Elin Haf Gruffydd Jones, Mercator
10 Medi 2018	Rhys Davies, Cadnant Planning
17 Medi 2018	Gwion Lewis, Bargyfreithiwr Siân Gwenllïan AC

23. Diolch i bawb am eu cyfraniadau gwerthfawr.

## **E Dogfennau Cefndirol**

### **Adroddiadau 7 Rhagfyr 2017 (Eitemau 6 a 7)**

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/g2155/Pecyn%20adroddiadau%20cyhoeddus%2007fed-Rhag-2017%2010.30%20Pwyllgor%20Craffu%20Cymunedau.pdf?T=10&LLL=1>

### **Adroddiad y Gweithgor 22 Chwefror 2018**

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/g2156/Pecyn%20adroddiadau%20cyhoeddus%2022ain-Chwe-2018%2010.30%20Pwyllgor%20Craffu%20Cymunedau.pdf?T=10&LLL=1>

### **Adroddiad y Gweithgor 19 Ebrill 2018**

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/g2157/Pecyn%20adroddiadau%20cyhoeddus%2019eg-Ebr-2018%2010.30%20Pwyllgor%20Craffu%20Cymunedau.pdf?T=10&LLL=1>

### **Adroddiad 14 Mehefin 2018**

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/g2542/Pecyn%20adroddiadau%20cyhoeddus%2014eg-Meh-2018%2010.00%20Pwyllgor%20Craffu%20Cymunedau.pdf?T=10&LLL=1>

**Adroddiad 11 Hydref 2018**

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/g2543/Pecyn%20adroddiadau%20cyhoeddus%2011eg-Hyd-2018%2010.30%20Pwyllgor%20Craffu%20Cymunedau.pdf?T=10&LLL=1>

**Adroddiad 4 Ebrill 2019**

<https://democratiaeth.cyngor.gwynedd.gov.uk/documents/g2546/Pecyn%20adroddiadau%20cyhoeddus%2004ydd-Ebr-2019%2010.15%20Pwyllgor%20Craffu%20Cymunedau.pdf?T=10&LLL=1>